# Y PWYLLGOR ADOLYGU GWEITHREDOL

**23 Medi 2020**

Yn bresennol: Y Cynghorydd K Doolin (Cadeirydd)
Y Cynghorydd ML Evans, y Cynghorydd P Harries, Dr M Havard, Mrs J James, y Cynghorydd PJ Morgan, Dr R Plummer, a'r Cynghorydd S Yelland

[Ymunodd y Cynghorydd A Wilcox â'r cyfarfod yn ystod yr Adroddiad ar y Cynnydd o ran Trawsnewid Digidol yn y Tîm Rheoli Cefn Gwlad (gweler Cofnod 4)]

(Cyfarfod Rhithwir: 10.00am – 12.00pm)

**1. Ymddiheuriadau**
Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. Datgeliadau**
Dywedodd Dr R Plummer ei bod yn Ymddiriedolwr Plantlife ac yn Aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru; cyfeiriwyd at y ddau sefydliad yn yr Adroddiad Cadwraeth [gweler Cofnod 5].

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2020 i'w cadarnhau a'u hawdurdodi.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau ac awdurdodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2020.

**4. Adroddiad ar y Cynnydd o ran Trawsnewid Digidol yn y Tîm Rheoli Cefn Gwlad**
Atgoffwyd yr Aelodau bod awdurdodiad wedi'i roi yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Hydref 2018 i brynu meddalwedd ESRI ArcGIS, a fyddai'n galluogi'r Tîm Rheoli Cefn Gwlad i gyflawni ei waith yn fwy effeithlon ac i wella llif y gwaith, o'r arolygu hyd at gyflawni. Hefyd, ym mis Medi 2018, gwnaethpwyd cyflwyniad ar y manteision o drawsnewid y systemau presennol i'r Pwyllgor hwn ac roedd yr adroddiad yn manylu ar y cynnydd a wnaeth y Tîm Wardeiniaid wrth fabwysiadu'r dull newydd o gynllunio a chyflawni tasgau a gomisiynwyd yn ystod ei waith arferol.

Canolbwyntiodd y cyflwyniad ar y manteision o ddefnyddio'r system, yn enwedig yr apiau ar gyfer Hawliau Tramwy ac archwilio pontydd ac adrodd am ddiffygion, a sut y gallai rheolwyr ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd. Nododd y Rheolwr Gweithrediadau fod y feddalwedd hefyd wedi'i defnyddio i reoli prosiectau fel y Prosiect Peillwyr, a oedd â'r nod o wella rheolaeth cynefinoedd ar gyfer peillwyr, yn bennaf ar hyd llwybr yr

arfordir, yn ogystal â gwaith parhaus yr Awdurdod i gofnodi'r clefyd coed ynn. Rhagwelwyd y byddai adroddiad ar wahân ar goed ynn yn cael ei wneud mewn cyfarfod yn y dyfodol. Yn olaf, amlinellodd yr adroddiad gynlluniau ar gyfer datblygu'r system i adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd.

Gan longyfarch y rheolwr, a'r Tîm Wardeiniaid am fabwysiadu'r hyn a oedd wedi bod yn ffordd newydd o weithio, cytunodd yr Aelodau fod cyflwyno'r system ddigidol wedi bod yn drawsnewidiol. Roeddent hefyd yn credu y gallai datblygu'r prosiect agor y drws i rai posibiliadau cyffrous ar gyfer agweddau eraill ar waith yr Awdurdod ac mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, yn ogystal â gwella ymgysylltiad y cyhoedd.

**NODWYD.**

[Oherwydd problemau gyda'r cysylltiad band eang, gadawodd Mrs J James y cyfarfod ar y pwynt hwn.]

**5. Adroddiad Cadwraeth 2019-2020**

Roedd yr adroddiad yn nodi'r canlyniadau a gyflawnwyd trwy waith cadwraeth yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol ac yn cynnwys canlyniadau monitro safleoedd yn y rhaglen waith weithredol; cyflawniadau o dan y cynllun 'Gwarchod y Parc'; cynnydd ar reoli safleoedd yr Awdurdod ei hun; cynnydd ar y prosiect 'Pwyth yn ei Bryd'; gwaith cydweithredu a phrosiectau ar y cyd; canlyniadau monitro rhywogaethau a dehongli a newidiadau mewn cefnogaeth amaethyddol.

Yn ei chyflwyniad i'r Pwyllgor, canolbwyntiodd y Swyddog Cadwraeth ar Brosiect Mursennod y De a ariannwyd gan grant gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Roedd y rhywogaeth hon mewn perygl ac yn gyfyngedig i Fryniau Preseli a'r New Forest. Cynhaliwyd arolwg o'r safleoedd a adferwyd dros yr wyth mlynedd flaenorol a datblygwyd cynllun rheoli i nodi safleoedd i'w hadfer yn ystod y 30 mlynedd nesaf. Gwnaed gwaith ffensio i gadw stoc allan o dir comin, ac roedd cynefinoedd wedi cael eu gwella trwy greu pyllau â golau haul a gwella mynediad i'r cyrsiau dŵr i annog merlod i bori. Dangosodd yr arolwg, a gynhaliwyd yn ystod haf 2020, fod mursennod y de llawndwf ar gael yn 7 o'r 11 safle, gan roi hyder i barhau â'r gwaith a amlinellwyd yn y cynllun rheoli.

Gwnaeth maint y gwaith a wnaed gan y tîm bach argraff dda ar yr aelodau. Fe wnaethant nodi bod gweithio mewn partneriaeth, gyda rhanddeiliaid eraill a pherchnogion tir trwy'r cynllun Gwarchod y Parc, yn hollbwysig, a gofynnwyd a oedd cyfleoedd i ehangu'r gwaith hwn. Atebodd y swyddog fod nifer fawr o dirfeddianwyr eisiau cyngor ar sut i wella'r cynefinoedd ar eu tir ac roedd yr Awdurdod wedi llwyddo i gael cyllid cyfalaf ar gyfer seilwaith newydd fel ffensio. Serch hynny, roedd cyllideb y cytundeb rheoli ar gyfer 2019/20 wedi'i dyrannu'n llawn. Roedd yr adnoddau a ddarparwyd gan y Swyddog Cadwraeth ychwanegol hefyd

wedi helpu, ynghyd â chyllid gan Apêl Creu Mwy o Ddolydd Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Gan droi at brosiect Mursennod y De, roedd y Pwyllgor yn falch o nodi ei lwyddiant a'r gwahaniaeth yr oedd yr Awdurdod yn ei wneud i rywogaeth brin ar draws y Parc Cenedlaethol.  Holwyd a oedd y gwelliannau a wnaed i gynefinoedd wedi bod o fudd i rywogaethau eraill hefyd, ac atebodd y swyddog y bu mantais i rywogaethau fel pili-pala Britheg y Gors yn sgil gwell pori a chreu a gwella cyrsiau dŵr.

**NODWYD**

*[Oherwydd bod yr Archaeolegydd Cymunedol yn cael problemau technegol, cytunodd y Cadeirydd, gyda chytundeb y Pwyllgor, i drafod y Gofrestr Risg cyn yr Adroddiad Archaeoleg Blynyddol.]*

**6. Y Gofrestr Risg**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y Gofrestr Risg ddiweddaraf.  Dywedodd y Rheolwr Cyllid iddi gael ei hadolygu gan Dimau Rheoli ac Arweinyddiaeth a thynnwyd sylw at newidiadau ers yr adroddiad blaenorol.  Fodd bynnag, ymddiheurodd nad oedd Risg 45 wedi'i diweddaru yn ôl y gofyn yn y cyfarfod blaenorol.

Mewn perthynas â Risg 20 (Risg o Fethiant TG Mawr neu Feirws, ac ati) gofynnodd yr aelodau a oedd y sgôr risg yn parhau i fod yn briodol, o ystyried y problemau a gafwyd yn ddiweddar yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.  Atebodd y Prif Weithredwr fod gan yr Awdurdod fesurau ar waith i amddiffyn y system a'i fod yn gwneud popeth o fewn ei allu i amddiffyn ei hun, ond byddai’r swyddogion yn parhau i ddysgu orau y gallent.

Nododd Aelod arall nad oedd yn ymddangos bod y cynnydd ar gyfer nifer o risgiau wedi'i ddiweddaru, ee Risgiau 9 a 24 o ran cynnydd y Cynllun Datblygu Lleol.  Ystyriwyd hefyd bod angen diweddaru Risgiau 20 a 47.

Yn olaf, o ran Risg 42 (Perygl o fethu ag adennill dyledion) gofynnodd un Aelod a oedd hyn yn debygol o fod yn broblem oherwydd sefyllfa Covid.  Dywedodd y Rheolwr Cyllid fod trefniadau'n cael eu hadolygu a bod trafodaethau gyda thenantiaid yr Awdurdod ar y gweill.

Gofynnodd yr Aelodau a ellid darparu naratif ehangach ar gyfer y Gofrestr Risg yn y cyfarfod nesaf, i dynnu sylw at y prif newidiadau, nodi'r hyn a ystyriwyd yn brif risgiau uchaf ac amlinellu'r camau a gymerwyd i'w lliniaru.

**NODWYD**

**7. Adroddiad Archaeoleg Blynyddol 2019 – 2020**

Amlinellodd yr adroddiad Archaeoleg Blynyddol gyflwr presennol yr henebion cofrestredig yn y Parc Cenedlaethol a'r rôl a chwaraeodd Archaeoleg wrth gyflawni amcanion yr Awdurdod mewn perthynas â Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a'r Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau. Aeth yr adroddiad ymlaen i amlinellu'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol a oedd yn cynnwys amrywiaeth o brosiectau, digwyddiadau a gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned a phartneriaethau â sefydliadau eraill. Cynhaliwyd nifer o arolygon archaeolegol a chomisiynwyd gwaith dehongli. Daeth yr adroddiad i ben gydag amlinelliad o'r blaenoriaethau a'r cynlluniau ar gyfer 2020-21. Nododd yr adroddiad yr effaith a gafodd COVID-19 ar y gweithgareddau a'r blaenoriaethau sy'n ymwneud ag archaeoleg a threftadaeth, gyda nifer o feysydd gwaith wedi'u hatal dros dro. Fodd bynnag, gwnaed mwy o gynnydd mewn meysydd eraill o ganlyniad ac roedd y defnydd o lwyfannau digidol ar gyfer digwyddiadau hyfforddi a chynadleddau wedi ehangu'r ymgysylltiad â'r rhai na fyddent wedi gallu mynychu fel arall.

Llongyfarchodd yr Aelodau'r swyddog ar ehangder y gwaith a wnaed, yn enwedig yr ymgysylltiad â phlant, y defnydd a wnaed o gyfryngau digidol a'r gwaith trwy gyfrwng Cymraeg. Roeddent hefyd yn falch o weld y defnydd a wnaed o feddalwedd ArcGIS a'r cysylltiadau â sefydliadau eraill.

**NODWYD.**

[Gadawodd y Cynghorydd M Evans y cyfarfod yn dilyn cyflwyniad y swyddog ar yr eitem ganlynol.]

**8. Adroddiad am Berfformiad am y Cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2020**

Dilynodd yr adroddiad strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2020/21. Roedd y Cynllun mewn dwy ran – roedd y rhan gyntaf yn seiliedig ar y cynnydd yn erbyn blaenoriaethau tymor byr a thymor canolig a oedd yn canolbwyntio ar ymateb yr Awdurdod i COVID-19 a'r gwaith cynllunio ar gyfer adferiad; roedd yr ail ran yn amlinellu'r cynnydd yn erbyn ffrydiau gwaith a oedd yn cyfrannu at gyflawni'r Amcanion Llesiant a'u heffeithiau yng Nghynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol dros y tymor hwy. Byddai'r rhan hon, wrth symud ymlaen, yn rhoi darlun o effaith COVID-19 a'r adferiad ar y gwaith cyflawni ac ar y prosiectau ar draws yr amcanion llesiant dros y tymor hir.

Soniwyd efallai y byddai cynnydd o ran rhai gweithgareddau o fewn y ffrydiau gwaith yn ystod 2020/21, ond efallai na fydd modd bwrw ymlaen â nifer ohonynt, yn enwedig y rhai sy'n cynnwys cyswllt wyneb yn wyneb rhwng unigolion, hyd nes i'r cyfyngiadau gael eu llacio'n rhannol neu'n llawn. Mewn rhai achosion byddai hyn yn golygu efallai na fyddai

gweithgareddau o dan rai ffrydiau gwaith yn cael eu cynnal yn ystod 2020/21. Byddai gweithgareddau o dan ffrydiau gwaith yn destun adolygiad pellach yn ystod y flwyddyn i asesu a ydynt yn parhau i fod yn berthnasol neu a oes angen eu diweddaru i alinio â chynlluniau adfer.

Yn yr adroddiad roedd gwybodaeth am berfformiad hyd at 31 Gorffennaf 2020 ar gyfer data misol ac ystadegau chwarter 1 (Ebrill – Mehefin) ar gyfer rhai setiau data. Roedd esboniad am ystyr yr arwyddion 'goleuadau traffig' (Coch Oren Gwyrdd) wedi'i atodi i'r adroddiad yn dilyn cais yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor.

Amlygodd yr adroddiad nifer o feysydd gwaith yr oedd Rheoliadau a chyfyngiadau COVID 19 wedi effeithio'n benodol arnynt. Darparwyd diweddariadau am Lwybr yr Arfordir, safleoedd a chanolfannau, rhaglen gweithgareddau a digwyddiadau'r Awdurdod, y gwasanaeth cynllunio a gweithio mewn partneriaeth.

Nodwyd bod un digwyddiad RIDDOR (o dan Reoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013) wedi digwydd yn chwarter 1 lle'r oedd aelod o staff a oedd yn gweithio ar lwybr yr arfordir wedi llithro, gan niweidio ei gartilag.

O ran cynllunio, soniwyd er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran trin ceisiadau, roedd y cyfyngiadau yn chwarter 1 yn cael eu hadlewyrchu yn yr ystadegau perfformiad cynllunio, gyda chanran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser sy'n ofynnol yn sylweddol is na'r targed hyd yma, sef 47.27%. Yn y cyfarfod eglurodd Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfeiriad y Parc fod yr Awdurdod wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r ffioedd ac oherwydd bod y Cynllun Datblygu Lleol ar fin cael ei fabwysiadu. Datblygwyd cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r sefyllfa bresennol, a oedd yn cynnwys defnyddio ymgynghorwyr yn y tymor byr i helpu i fynd i'r afael â'r ôl-groniad. Byddai hyn yn cael ei adolygu ddiwedd mis Medi i weld a oedd angen cymryd camau pellach. Mewn ymateb i gwestiwn, soniwyd bod yr ôl-groniad gorfodi blaenorol bellach wedi'i glirio, ond y byddai'r swyddogion yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

Darparwyd ffigurau wedi'u diweddaru hefyd ar gyfer canolfannau'r Awdurdod. Ym mis Awst, cafodd Castell Caeriw 7,088 o ymwelwyr, o'i gymharu ag 11,007 yn 2019/20, tra bod Castell Henllys wedi cael 2,249 o ymwelwyr ym mis Awst o'i gymharu â 4,818 ym mis Awst 2019/20. Roedd y ddau safle wedi gorfod cyfyngu ar y niferoedd y gallent eu derbyn ar unrhyw un adeg. Soniwyd bod Oriel y Parc wedi ailagor yn ddiweddar, ond nid oedd nifer yr ymwelwyr ar gael eto.

Gan ddiolch i'r swyddog am yr adroddiad, roedd yr Aelodau'n pryderu i nodi bod statws coch yn erbyn y weithred i ddigideiddio adroddiadau Iechyd a Diogelwch a holwyd a oedd hon yn broblem dros dro neu'n broblem yr oedd angen mynd i'r afael â hi. Atebodd y swyddogion fod cofnodion effeithiol yn cael eu cadw ar hyn o bryd gan ddefnyddio system bapur. Roedd system Adnoddau Dynol gyffredinol newydd yn cael ei chaffael ond nid oedd bwriad i gofnodi iechyd a diogelwch yn ddigidol fel rhan o'r system newydd hon. Byddai gwaith yn dal i gael ei wneud i ddatblygu dull digidol o gofnodi er mwyn gwneud y broses yn fwy effeithlon.

Gofynnodd un Aelod a fyddai'r Awdurdod yn gallu adrodd ar gyfraniad yr Awdurdod at leihau carbon yn sgil cynnal cyfarfodydd rhithwir. Atebodd y Prif Weithredwr ei fod yn credu y byddai effaith ar ôl troed carbon yr Awdurdod, ond roedd yn amau a ellid cynnal hynny yn y tymor hwy.

Yn olaf, gofynnwyd cwestiwn am gynnydd ar y prosiect i weithio gyda Chynghorau Cymunedol i fynd i'r afael â llygredd golau, a oedd â sgôr coch. Cytunodd y swyddog i gysylltu â'r swyddog perthnasol a rhoi diweddariad i'r Pwyllgor maes o law.

**NODWYD**

**9. Y Grŵp Gwelliant Parhaus: dirprwyo materion**

**PENDERFYNWYD** nad oedd unrhyw faterion yr oedd angen eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried.

Cadarnhawyd y cofnodion hyn (cyn belled ag y cynhwysir y newidiadau sy'n dilyn) yng nghyfarfod y Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2020

Nodwyd gwall teipio yn ail baragraff Cofnod 6 y cofnodion Saesneg - dylai'r frawddeg gyntaf fod wedi cyfeirio at y risg o 'attack' nid 'attach'. Hefyd yn y paragraff olaf ond un ar dudalen 5 o'r cofnodion (Adroddiad Perfformiad Cofnod 8), dylai'r cyfeiriad at fewnlifiad o geisiadau cynllunio oherwydd cynnydd mewn ffioedd fod wedi darllen cyn cynnydd mewn ffioedd. Fodd bynnag, aeth yr Aelod rhagddo i ddweud mai mân gywiriadau oedd y rhain ac, ar y cyfan, ei bod am gofnodi ei chanmoliaeth i'r swyddogion dan sylw am safon cofnodion yr Awdurdod.